
## Adroddiad Cryno ar Gynaliadwyedd 2015-2016

Mae Estyn wedi nodi bod ein prif effeithiau ar yr amgylchedd yn deillio o ddefnyddio ynni, trafnidiaeth, cynhyrchu gwastraff a defnyddio deunyddiau swyddfa. Bydd Estyn yn ceisio lleihau ei effeithiau ar yr amgylchedd trwy ymrwymo i gyfres gynhwysfawr o amcanion a thargedau gwella.

Perfformiad yn erbyn amcanion amgylcheddol 2015-2016:

1. **Parhau i fonitro'r CO2 a gynhyrchir gan anelu at ostyngiad o 5% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2012-2013).**

| | |
|---|---|
| Gwaelodlin Estyn 2012-2013: | 205,607.18 kg CO2 |
| Targed erbyn 2017-2018: | 195,326.82 kg CO2 |
| | |
| 2013-2014: | 206,788.04 kg CO2 |
| 2014-2015: | 181,185.68 kg CO2 |
| 2015-2016: | 207,108.13 kg CO2 |





Annual Performance = Perfformiad Blynyddol
Reduction Target = Targed Gostwng

Eleni, mae ein hallyriadau aer CO2 wedi mynd yn ôl i lefelau gwaelodlin; fodd bynnag, rydym yn parhau i ystyried sut gallwn ni wella ein perfformiad amgylcheddol yn y maes hwn. Er enghraifft, fe wnaethom osod system goleuadau LED effeithlon ym Mawrth 2016 ac rydym yn gobeithio nodi arbedion o hyn ar ddiwedd 2016-2017.

Rydym yn bwriadu adolygu system aerdymheru'r swyddfa yn 2016-2017 hefyd, a'r nod yw gosod system fwy effeithlon.

Mae allyriadau aer CO2 yn cynnwys allyriadau trydan, nwy a thrafnidiaeth (car, rheilffordd ac awyr).




Electricity = Trydan
Gas = Nwy
Travel = Teithio

**2. Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru (LlC) "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", cynyddu ailgylchu 5% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2013-2014).**


Mae gan Estyn ddulliau gwaredu ailgylchu/adfer ynni[1] ar waith ar gyfer ffrydiau gwastraff amrywiol o bapur i ganiau diod a photeli plastig i offer electroneg a gwastraff bwyd. Ein targed (yn unol â LlC) yw i wastraff wedi'i ailgylchu gyfrif am 76% o gyfanswm y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu gennym erbyn 2018-2019.

Rydym wedi bod yn cynyddu ein hailgylchu/adfer ynni ac yn lleihau maint y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn er 2005-2006. Ailgylchwyd 37% o'n gwastraff yn 2005-2006. Yn 2013-2014, roedd gwastraff wedi'i ailgylchu yn cyfrif am 71% o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd gennym a chynyddodd y ffigur hwn ymhellach yn 2014-2015, gyda 79% o'n holl wastraff a gynhyrchwyd gennym yn cael ei ailgylchu. Caiff gwastraff Estyn ei reoli gan Gyngor Dinas Caerdydd ac maent wedi cadarnhau, o 1 Medi 2005, bod 'gwastraff bagiau duon' Estyn wedi cael ei losgi yn llosgydd Parc Trident Viridor, gan adfer ynni. Cafodd 91% o'n gwastraff ei ailgylchu/ddefnyddio ar gyfer adfer ynni yn 2015-2016 gyda 9% yn unig yn mynd i safleoedd tirlenwi.

Mae Estyn yn parhau i hyrwyddo ac annog staff i ailgylchu llawer o ffrydiau gwastraff a darperir cynwysyddion yn y ceginau a'r swyddfa i wahanu gwastraff.

---

[1] Mae ailgylchu/adfer ynni yn Estyn wedi'i seilio ar bwysau mewn kg o wastraff




TARGET = TARGED
Recycled/energy recovery = Gwastraff wedi'i ailgylchu/adfer ynni
Landfill = Tirlenwi

### 3. Yn unol ag ymrwymiad LlC "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", lleihau deilliant gwastraff 1.2% bob blwyddyn tan 2050 (yn seiliedig ar ffigurau 2013-2014).


Mae Estyn yn annog yr holl staff i leihau gwastraff[2] yn unol â'r 3 egwyddor, sef lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu.

| | |
|---|---|
| Gwaelodlin 2013-2014: | 8,080 kg o wastraff blynyddol sy'n codi (R-5,767 kg/L-2,313 kg) |
| Targed: | gostyngiad o 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050. |
| 2014-2015: | 6,891 kg (R-5,456 kg/L-1,435 kg) |
| 2015-2016: | 9,175 kg (R/ER-8,319 kg/L-856 kg) |

Nod Estyn yw lleihau faint o wastraff a gynhyrchir yn ei swyddfeydd, ble bynnag y bo modd; fodd bynnag, er ein bod ar y trywydd iawn i fodloni ein targed ailgylchu, yn 2015-2016, fe wnaethom gynyddu cyfanswm y gwastraff 14% o'r ffigur gwaelodlin. Mae'r cynnydd hwn yn bennaf o ganlyniad i glirio'r swyddfa yn haf / hydref 2015 a gynhyrchodd wastraff ychwanegol ar gyfer ailgylchu a thirlenwi fel ei gilydd. Mae gennym fenter hefyd i annog arolygwyr Estyn (sy'n gweithio gartref) i ddod â'u gwastraff papur i'r swyddfa i'w waredu'n briodol (ailgylchu cyfrinachol neu ailgylchu cyffredinol) gan Estyn yn hytrach na'i waredu yn eu cartrefi, a allai hefyd gyfrannu at wastraff ychwanegol yn y swyddfa.

[2] Atal gwastraff Estyn: yn seiliedig ar bwysau mewn kg o wastraff.

Yn fwy cyffredinol, mae Estyn wedi cynyddu ei ddefnydd o gyfathrebu electronig ac wedi lleihau faint o bapur a ddefnyddir yn y swyddfa ac ar gyhoeddiadau allanol fel ei gilydd.




Annual Performance = Perfformiad Blynyddol
Year-on-year reduction target = Targed gostwng o flwyddyn i flwyddyn


Mae mentrau sydd wedi'u hymgorffori yn cynnwys Sharepoint Microsoft, sef llwyfan ar gyfer TGCh Estyn sy' cefnogi cydweithio ac yn cynnwys ystafell arolygu rithwir ar gyfer rhannu gwybodaeth am arolygu rhwng darparwyr ac Estyn, dosbarthu adroddiadau arolygu yn electronig i Aelodau Cynulliad a darparwyr, lansio cylchlythyrau mewnol ac allanol ar-lein a chyhoeddi dogfennau corfforaethol ac adroddiadau cylch gwaith Estyn trwy e-gyfathrebu yn hytrach na chael eu hargraffu ar ffurf copi caled.

Mae mentrau diweddar yn 2015-2016 yn cynnwys symud i ddefnyddio fersiynau electronig yn bennaf o'r holiaduron i rieni a dysgwyr. Mae'r holiaduron yn fecanwaith i Estyn holi rhieni a dysgwyr mewn arolwg i bennu unrhyw bryderon ynghylch perfformiad blaenorol darparwr addysg cyn arolygiad. Yn y gorffennol, roedd cyfuniad o holiaduron ar-lein a holiaduron papur yn cael eu defnyddio (sylwer: mae cyfran fach o holiaduron sy'n cael eu dychwelyd yn cael eu cyflwyno o hyd gan ddefnyddio fersiwn bapur). Ar ddiwedd Mai 2015, dechreuodd Estyn ddefnyddio system ar-lein newydd, iPayView, yn lle slipiau talu papur. Mae hyn yn golygu bod holl slipiau papur a ffurflenni P60 staff ar gael yn electronig ac nid oes angen i ni argraffu slipiau cyflog bob mis mwyaf.


Cyfanswm ein gwariant ar wastraff yn 2015-2016 oedd £4,080.  Caiff ein dŵr ei reoli gan ein landlord ac ar sail y rhagolwg tâl gwasanaeth, fe wnaethom dalu £673 am ddŵr yn 2015-2016.

**4. Lleihau effaith trafnidiaeth y sefydliad, gan gyfrannu at y targed gostwng CO2 (amcan 1).**

Mae trafnidiaeth yn un o effeithiau amgylcheddol mwyaf arwyddocaol y sefydliad. Dangosir milltiredd blynyddol arolygwyr (a wneir yng ngherbydau personol staff a chan ddefnyddio’r contract llogi ceir) ar gyfer y blynyddoedd diwethaf isod.




Mae Estyn yn cynnal ei fusnes gan ddefnyddio nifer fach o deithiau rheilffordd ac awyr hefyd.  Mae teithiau o’r fath yn cyfrif am ryw 5% o gyfanswm y teithiau. Dangosir allyriadau trafnidiaeth blynyddol arolygwyr (car, rheilffordd ac awyr) ar gyfer y blynyddoedd diwethaf isod.




At ei gilydd, cynyddodd allyriadau CO2 o drafnidiaeth 28% yn 2015-2016 o gymharu â'r ffigur gwaelodlin.  Roedd allyriadau trafnidiaeth yn cyfrif am 61% o'r holl allyriadau yn 2015-2016.

Mae busnes craidd Estyn yn golygu bod arolygwyr yn teithio o gwmpas Cymru i ymweld â darparwyr addysg amrywiol.  Er nad ydym wedi gallu lleihau effaith trafnidiaeth y sefydliad yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym yn monitro'r dangosydd amgylcheddol hwn ac mae gennym strategaethau ar waith i leihau effaith ein trafnidiaeth ar yr amgylchedd.

Mae Estyn yn annog cydweithwyr i rannu car wrth deithio ar fusnes swyddogol er mwyn lleihau effaith amgylcheddol teithio swyddogol.  Nod contract llogi ceir Estyn yw lleihau'r effaith ar yr amgylchedd trwy deithio gan fod ceir sydd ar gael trwy'r cynllun yn cael eu dewis yn benodol gyda'r nod i leihau effaith allyriadau o drafnidiaeth.  Caiff y ceir i'w llogi eu diweddaru'n rheolaidd i sicrhau bod cerbydau allyriadau isel yn cael eu defnyddio.

Hefyd, mae staff sy'n gyrru fel rhan o'u rôl yn cael eu hannog i yrru'n ddiogel a llenwi'r car â thanwydd yn effeithlon.  Cynigir cyrsiau i ddechreuwyr newydd a staff presennol hefyd.  Mae Estyn yn ymdrechu i drefnu cyrsiau a digwyddiadau yn ddaearyddol hefyd i leihau teithio i ddigwyddiad.  Mae gan Estyn gynllun teithio gwyrdd sy'n cwmpasu popeth a wnawn.

Nod Estyn yw lleihau allyriadau CO2 o drafnidiaeth fel yr amlinellir uchod, ond fel arolygiaeth sy'n cwmpasu Cymru gyfan, mae effaith trafnidiaeth Estyn yn agwedd allweddol ar ein gwaith.

**5. Cyfleu mentrau amgylcheddol (a chynaliadwyedd ehangach) wrth y cyhoedd a'r staff.**

Mae proses arolygu Estyn yn parhau i sicrhau bod dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy eu haddysg.

Mae Estyn yn parhau i gyfarfod â sefydliadau fel Rhaglen Dysgu Byd-eang Cymru, (RhDB-C) i rannu arfer dda a chynnal proffil addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF) mewn ysgolion.

Mewn arolygiadau yn ystod 2015/16, nodwyd bod 13 o ddarparwyr yn dangos arfer ragorol mewn ADCDF. Roedd y darparwyr hyn yn cynnwys ysgolion o'r sectorau cynradd ac uwchradd a sefydliadau addysg bellach. Pan nodwyd arfer gadarn, roedd nodweddion yn cynnwys:

- pwyllgorau eco gweithgar; yn yr arfer orau, roedd y rhain yn cynnwys disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni
- ysgolion a oedd yn gweithio i wella nid yn unig eu hamgylchedd ysgol eu hunain, ond a oedd yn gweithio gyda'r cyngor lleol neu'r gymuned leol i wella ardaloedd cyhoeddus yn y gymuned leol
- pan mae ADCDF wedi cael ei hymgorffori mewn cynlluniau gwaith ar draws yr ysgol ac nid yw'n cael ei gynnig fel gweithgaredd allgyrsiol yn unig ar gyfer rhai disgyblion
- pan fydd egwyddorion ADCDF wedi cael eu hymgorffori mewn dysgu awyr agored, er enghraifft, Ysgolion Coedwig
- cyfranogiad y staff mewn ymweliadau neu deithiau cyfnewid, gan gynnwys Twrci, Bwlgaria, Slofenia, Yr Eidal, Cyprus a Denmarc
- datblygu cysylltiadau â ffrindiau llythyru ar gyfer disgyblion, gan gynnwys Ffrainc, Awstralia a Lesotho
- ymrwymiad i hyfforddi staff
- dathlu amrywiaeth ddiwylliannol mewn ysgolion

Yn ogystal, mae Estyn wedi gweithio i gyfleu gwybodaeth a chymorth priodol i gynorthwyo staff i arfer eu cyfrifoldeb amgylcheddol yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, cyhoeddir ein Polisi a'n Datganiad Amgylcheddol ar ein gwefan, mae erthyglau amgylcheddol wedi cael eu cynnwys yng nghylchlythyr staff Estyn, mae ein Grŵp Cyflwyno Gwasanaethau yn fforwm misol ar gyfer materion gweithredol ac mae wedi cynnwys cynnydd yn erbyn amcanion a thargedau amgylcheddol, ac mae asesiadau effaith, a gynhelir ar gyfer pob polisi gan Estyn, wedi cynnwys ystyriaeth i berfformiad amgylcheddol.

Pasiwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddydd Mawrth, 17 Mawrth 2015. Mae'r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd ar sefydliadau penodol i sicrhau mai datblygu cynaliadwy (DC) yw eu hegwyddor drefnu ganolog. Er na fydd y ddyletswydd hon yn berthnasol i Estyn, rydym wedi gwneud tipyn o waith i gynnwys yr elfennau datblygu cynaliadwy angenrheidiol yn ein hamcanion strategol a'n hegwyddorion cyflwyno. Mae Cynllun Blynyddol Estyn 2016-2017 wedi ei gyhoeddi ar wefan Estyn ac mae'n cynnwys y modd y mae Estyn

yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Cymru, a amlinellir yn y nodau lles a'r pum ffordd o weithio (yr egwyddor datblygu cynaliadwy) yn Atodiad 1.

**6. Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu**

Ar gyfer yr holl waith caffael perthnasol nad yw'n ymwneud ag arolygu, mae'n ofynnol i gontractwyr gefnogi ymrwymiad Estyn i leihau ei effaith ar yr amgylchedd a darperir y ddolen gyswllt i'r wefan i Bolisi Amgylcheddol Estyn ar eu cyfer. Ar gyfer gwaith caffael nad yw'n ymwneud ag arolygu, mae'r holl ddogfennau caffael sy'n deillio o Estyn wedi bod ar ffurf electronig er Medi 2010. Caiff ystyriaeth i ffactorau amgylcheddol ei chynnwys yn rheolaidd mewn meini prawf arfarnu tendrau a rhoddir cyfarwyddyd i gyflenwyr ddarparu dolenni cyswllt i'w gwefan, a sganio ardystiad perthnasol i ddangos tystiolaeth o hyn, yn lle anfon dogfennau manwl gyda'u cynnig.

Gan droi at waith caffael sy'n ymwneud ag arolygu, mae Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract yn parhau i gyflwyno eu cynigion contract tymhorol i ni yn electronig trwy borth diogel sy'n cael ei gynnal yn allanol gan Bravo Solutions. Wedi i gam dau system Proffiliau Arolygwyr Estyn gael ei roi ar waith, bydd yn dod yn offeryn allweddol ar gyfer rheoli'r arfer o ddarparu a defnyddio Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract yn electronig yn y flwyddyn ariannol nesaf. Wrth ddyfarnu contractau i Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract, lle mae Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract wedi cael eu hystyried yr unfath (ansawdd a phris) a bod ganddynt allu o hyd, mae milltiredd i safle arolygiad o gartref yr Arolygydd Ychwanegol dan Gontract yn ffactor i'w arfarnu hefyd wrth leihau effeithiau amgylcheddol niweidiol.

Mae cyflenwyr a ddarparwyd trwy fframweithiau'r llywodraeth eisoes wedi dangos eu hymrwymiad i wella'r amgylchedd i gymhwyso ar gyfer cael eu cynnwys mewn lotiau tendro. Pan na fydd fframwaith addas gan y llywodraeth neu ar adegau pan nad oes angen tendr llawn ar gyfer cost nwyddau/gwasanaethau, darperir cyflenwyr trwy gronfa ddata Sell2Wales; sydd hefyd yn cefnogi mentrau bach a chanolig yng Nghymru. Mae defnyddio'r llwybr hwn wedi galluogi Estyn i ymgysylltu â chyflenwyr lleol hefyd, lleihau allyriadau pan fo modd a lleihau'r ôl-troed carbon; er enghraifft, defnyddir cwmnïau arlwyo lleol ar gyfer yr holl ddigwyddiadau mewnol; cyflenwr gwasanaethau argraffu mawr ar gyfer deunyddiau cyrsiau hyfforddi Estyn; datblygu Proffiliau Arolygydd Estyn; a gwasanaethau dylunio graffeg a ffotograffiaeth ddigidol ar gyfer Adroddiad Blynyddol PAEM.